COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Hydref 11eg, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Catherine Ll. Morris, Andrew T. Weir

ABSENNOL

William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Deallwyd fod Cyng. Andrew T. Weir gartref o'r ysbyty erbyn hyn – ymwelodd Cyng. Dewi W. Roberts ag ef heddiw.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fedi 13eg, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/0825/39/AM	Adeiladu tŷ – Plot ger Gorse Bank, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0863/39/LL	Dymchwel lolfa wydr 'lean to' ac adeiladu estyniad unllawr – Hafan Geltaidd, 1 Ger y Foel, Mynytho – **Cefnogir**
C17/0923/39/LL	Diwygiad i gais C17/0443/39/LL er codi uchder crib y to ar yr adeilad gwreiddiol o 40cm ar y lefel to is a 20cm ar y lefel to uchaf (gweddill y datblygiad yn aros fel cais C17/0443/39/LL) – Pen y Cei, Aber-soch – **Gwrthwynebir, fel a wnaethpwyd yn y cais gwreiddiol, oherwydd ei fod mewn safle amlwg a welir uwch ben yr harbwr o bob ffordd fynediad i mewn i'r pentref, ynghyd â bod gormod o estyniadau toeau fflat**
C17/0925/39/LL	Diwygio amod 2 ar ganiatad cynllunio C17/0318/39/LL er adeiladu'r datblygiad yn unol â chynlluniau diwygiedig – Tir ger Deudraeth, Aber-soch **– Penderfynwyd gohirio trafodaeth er mwyn cael gwybod yn union beth yw Amod 2**

4. **MATERION YN CODI**

a) **3. Ceisiadau Cynllunio**

i) ***C17/0159/39/LL – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch***

Deallwyd y gwrthodwyd y cais gan y Pwyllgor Cynllunio yn dilyn cyfarfod safle; ni ymddangosodd y dyfarniad ar Dilyn a Darganfod eto.

b) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Lôn Traeth***

Archebwyd tair sedd newydd ond, ni chasglwyd hwy eto.

ii) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***

Nid yw'n fwriad gosod peiriannau talu yn y toiledau yn y dyfodol agos oherwydd y costau. Gwneir ymholiadau pellach i weld beth arall sydd yn bosibl o ran codi incwm; cysylltir eto. Penderfynwyd ateb drwy nodi yr hyn a wnaeth y Cyngor hwn o ran gosod peiriannau talu a'r incwm a dderbynnir.

c) **Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***

Ni lwyddwyd cysylltu â'r noddwr ond, bwriada Wyn Williams ofyn iddo a fyddai'n fodlon cyfrannu at ailwynebu'r cae pêl-droed cyn holi a ellid ymgeisio am nawdd Sportlot. Torrwyd yr eiddew oddi ar bostiau'r ffens ochr Lôn Engan – taclusodd gryn dipyn o'r herwydd. Awgrymwyd y dylid ystyried gosod ffens werdd fel sydd ar ochr uchaf y cae – aros i weld beth a ddigwydd o ran yr offer sglefrfyrddio.

ii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***

Gwrthododd Sean Owen y gwahoddiad i baentio'r offer er diolch amdano. Ffoniodd Melfyn Pritchard i ddweud mai newydd dderbyn prisiau paent oedd o i fedru cynnig pris. Ni chysylltodd y paentwyr eraill ac, o ganlyniad, cymerir nad oes ganddynt ddiddordeb yn y gwaith.

ch) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**

- Ni dderbyniwyd gwybodaeth os cyfranna'r Heddlu at y camera newydd ai peidio.
- Er yr anfonwyd gwahoddiad i'r Heddlu fynychu cyfarfod heno, ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth nac ateb oddi wrthynt – gofynnir iddynt ddod mis nesaf.
- Arwyddion – Ian Roberts yn dal i aros am bris un plastig caled neu fetel.

d) **Meddygfa Aber-soch**

- Ni chasglwyd y ddeiseb cyn cyfarfod heno. Sylwyd nad yw'n cael ei harddangos yn y siopau erbyn hyn – angen parhau â hi.
- Derbyniwyd copi o e-bost a dderbyniodd Wyn Williams oddi wrth Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, yn ymddiheuro am beidio â'i ateb ynghynt ac fel y noda WW, nid yw'n dweud dim.
- Ni dderbyniwyd ateb i'r llythyr a anfonwyd at Lywodraeth Cymru parthed Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor.

dd) **Gohebiaeth: 9i) Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**

Derbyniwyd copi o'r dystysgrif ond, nid yr adroddiad, ynghyd â'r anfoneb – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

e) **5. Coed yr Allt, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd taliad iawndâl mis Medi y diffynnydd hyd yma ond, efallai y cyrhaeddodd ar ôl dyddiad y datganiad banc (Hydref yr ail), gan mai talu'r Llys ar ddydd olaf pob mis a wna a'i drosglwyddo i gyfrif y Cyngor wedyn – holir wrth fancio arian y toiledau fory.

f) **Gohebiaeth: 11d) Came and Cable – Yswiriant**
Derbyniwyd y ddogfennaeth berthnasol.

ff) **Gohebiaeth: 10a) Un Llais Cymru viii) Papur Briffio i Randdeiliaid – Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned ar Bapur Gwyn GIG**
Derbyniwyd copi Cymraeg a Saesneg o ymateb (118 tudalen) Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru i'r uchod er gwybodaeth.

g) **Gohebiaeth: 10b) Llywodraeth Cymru iii) Clystyru – Ariannu i Gyflwyno Trefniadau Cyfleusterol ar y Cyd**
Copi o ateb Pennaeth Partneriaethau Llywodraeth Leol at Gadeirydd Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor ULlC – nodwyd pryderon am y raddfa amser i ymgeisio am gefnogaeth i glystyru ym mhwyllgor mis Medi.

ng) **Gohebiaeth: 10ch) RCL Redgrove Consultants Ltd. – Telefonica UK Ltd. (02)**
Nid yw Telefonica (O2) am barhau â'r bwriad o chwilio am safleoedd addas (Cae Chwarae Aber-soch yn y gymuned hon) i leoli offer telegyfathrebu dros dro.

5. **MYNWENT**

a) **Ffensio**
Mae'r tirfeddiannwr yn fodlon chwistrellu'r dail tafol yn y gwanwyn ond, nodir na chaniateir defnyddio chwynladdwr yn Rheolau'r Fynwent (Rheol 7). Ymholir beth yw'r sefyllfa, gan y rhagwelir na ddefnyddir y tir i gladdu dan sylw am rai blynyddoedd eto.

b) **Cyngor Gwynedd – Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd sy'n Awdurdodau Claddu**
Cais am gadarnhad os yw'r Cyngor yn awdurdod claddu – atebwyd.

c) **Dyled Ymgymerwr**
Ysgrifennwyd at ymgymerwr nas anfonodd ddogfennaeth na thaliad am angladd a gynhaliodd ym mis Gorffennaf.

6. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad 2016 – 2017**
Derbyniwyd tystysgrif i'w harddangos oddi wrth BDO, yr Archwilwyr Allanol, i brofi y cwblhawyd yr archwiliad cyn Medi 30ain; derbyniwyd copi o hysbysiad a gadarnhai na chyhoeddwyd barn archwilio ychydig ddyddiau ynghynt hefyd. Amgaewyd Adroddiad Materion yn Codi – tynnir sylw at asedau sefydlog a chofrestr asedau y Cyngor – angen i'r Archwilydd Mewnol ddilysu ei chywirdeb yn ei adolygiad blynyddol; bydd angen ychwanegu y mynegbyst haearn bwrw. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n anfonebu, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

b) **Llif Arian ac Adroddiad Ariannol – Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol**
Dosbarthwyd copi o'r llif arian i bawb ac aethpwyd trwyddo, gan fanylu ar ambell bennawd. Cynhaliwyd Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol – penderfynwyd eu derbyn ac arwyddwyd y ffurflenni gan y Cadeirydd a'r Clerc.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Maes Parcio Ychwanegol, Lôn Golff, Aber-soch**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Aneurin Môn Parry, Swyddog Gorfodaeth, parthed yr uchod. Nodai bod defnyddio tir amaethyddol/pori fel maes parcio cerbydau angen caniatâd cynllunio gan fod newid defnydd materol yn digwydd.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Ymgynghoriad Cyhoeddus Teithio Llesol**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, i'r ymholiad pam na chychwynnir y llwybr o Aber-soch yn hytrach na Llanbedrog – mae'n un o'r cynlluniau a ystyria'r Cyngor. Ychwanega, oherwydd ei fod yn gynllun uchelgeisiol iawn, ei bod yn anodd cadarnhau os y'i cynhwysir yn y cynlluniau ai peidio. Bwriedir cyhoeddi mapiau swyddogol yn gynnar yn y flwyddyn newydd yn dilyn adolygu'r holl sylwadau a dderbyniwyd.

b) **Biniau**
Derbyniwyd ymateb oddi wrth Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaeth Stryd, yn dweud nad oedd gwrthwynebiad gosod bin baw cŵn ger Maes Parcio Machroes. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gosod un ar bolyn arwydd ffordd ar Lôn Haearn wrth fynd lawr at y traeth – bydd yn hwylus i'w wagio.

c) **Y Fach – Cynllun Parcio**
Er na dderbyniwyd ateb i'r ymholiad a ellid ystyried newid mynedfa/allanfa'r gilfan, adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts y bwriedir eu cadw fel ag y maent ar hyn o bryd a chadw golwg arnynt.
Derbyniwyd rhestr brisiau ac amseriad y parcio talu ac arddangos (tymhorol 24 awr o Fawrth 1af hyd Hydref 31ain) – bydd rhaid creu gorchymyn traffig ar ei chyfer:

hyd at:	bedair awr	£3.00
	wyth awr	£4.50
	12 awr	£6.00
	24 awr	£7.50.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd na ddylid caniatâu parcio dros nos (dylid dileu'r pris pedair awr ar hugain, ynghyd â gofyn am gynnig opsiwn o hanner awr/awr am bunt i drigolion lleol neu ymwelwyr a fuasai eisiau cerdded eu ci neu fynd i nofio. Adroddwyd, hefyd, bod dŵr yn sefyll ar rannau ohono – ni ddigwyddai cynt oherwydd bod gwlïau bob hyn a hyn.

ch) **Parcio yn Llanengan**
Derbyniwyd cwyn am y parcio ym mhentref Llanengan, yn arbennig gan berchnogion y tai cyn cyrraedd tafarn y Sun sydd, hefyd, yn gadael eu biniau tu allan i'w drysau. O ganlyniad, mae'n anodd teithio â pheiriannau fferm a gofynnwyd a fyddai modd

paentio dwy linell felen yno. Trafodwyd y gŵyn a phenderfynwyd, er y cydymdeimlir â'r cwynwr, y trosglwyddid hi i'r Adran Briffyrdd, ynghyd â gofyn, beth yw arwyddocád y llinell wen ger Meillion, gan yr anwybyddir hi'n barhaus.

d) **Gordyfiant ger Ysgubor Wen, Lôn Sarn Bach, Aber-soch**
Mynegwyd pryder am y gordyfiant rhwng yr hen 'Wine Shop' a Llwyndy, gan ei fod yn berygl i gerddwyr ar ffordd brysur – cysylltir â'r Adran.

dd) **Blwch Post Llangian**
Adroddwyd y trawyd yr uchod a'i dynnu o'i safle ger yr hen bost i'w atgyweirio ym mis Mehefin ac ni ddaeth yn ôl – ni ddymuna'r perchennog ei gael yn ôl yn ei safle gwreiddiol. Cwynodd trigolion Llangian nad ailosodwyd o ac er yr ymwelodd swyddog o Swyddfa'r Post â'r pentref, ni chafodd air â neb. Deallwyd na ellir ei osod ar dir preifat ond, bodlonodd swyddogion yr Eglwys iddo gael ei osod tu allan i Neuadd yr Eglwys; penderfynwyd yr ysgrifennid at y Swyddfa'r Post i fynegi hyn, gan gynnwys cyfeiriad Warden yr Eglwys, ynghyd â nodi y crea anghyfleustra mawr i drigolion y pentref.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Ni chysylltwyd â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy. Deallwyd gan DWO y cafodd brofedigaeth deuluol ac y bu'n absennol o'i waith am gyfnod. Derbyniwyd anfoneb torrwr arall – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – ac ni dderbyniwyd un contractwr arferol hyd yma.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Ymgynghoriad: Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy***
Anfonwyd sylwadau ar Bennod 4: Mynediad i'r Awyr Agored yr uchod erbyn Medi 30ain.

ii) ***Bwletin mis Medi***
Argraffwyd 'Canllawiau ar Benodi Archwilydd Mewnol i Gynghorau Cymuned a Thref' a Rhestr Wirio Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref' er gwybodaeth.

iii) ***Hyfforddiant mis Hydref***
Rhestr o'r modiwlau a gynhelir yn ystod y mis.

iv) ***Cyllideb Ddrafft – Adroddiad Polisi Treth Cymru, y Cyfraddau a'r Bandiau***
Amlinella'r adroddiad y cynnydd hyd yn hyn ar fframwaith polisi treth Llywodraeth Cymru a chyflwyna restr fer o syniadau ar drethi newydd fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2018 – 2019.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Ymgynghoriad: Canllaw Drafft Arolygiad Cymuned***
Canllaw wedi'i ddiweddaru ar gynnal arolygon cymunedol gan brif gynghorau er mwyn cefnogi mwy o gysondeb o ran y modd y cynhelir hwy – angen sylwadau erbyn Rhagfyr 21ain.

ii) ***Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018 – 2019***

Ymgynghoriad – angen sylwadau erbyn Tachwedd 29ain. Adolygwyd y Polisi Rheolau Lwfansau i gydfynd â'r Adroddiad.

iii) ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!*** Cais gan aelodau Panel yr Adolygiad Annibynnol am ateb oddi wrth Gynghorau Cymuned a Thref a'u cymunedau i bedwar cwestiwn craidd: 1. Am beth ddylai cynghorau fod yn gyfrifol? 2. Sut dylent weithredu? 3. Beth sy'n eu hatal rhag cyflawni dros y gymuned leol? 4. Sut mae cynghorau'n sicrhau eu bod yn cynrychioli'r gymuned leol yn y ffordd orau bosibl? Angen sylwadau erbyn dechrau'r flwyddyn.

c) **Emyr Wyn a Mari Lewis Jones – Gwasanaeth Torri Gwellt**
E-bost yn hysbysebu eu cwmni newydd sy'n cynnig gwasanaeth torri gwellt a chloddiau, ynghyd â chlirio a ffensio.

ch) **Adran Addysg – Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol Ysgolion Gwynedd**
Llythyr yn gofyn am gadarnhad o gynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff llywodraethol y tair ysgol leol. Ni ddymuna CLlM barhau yn Ysgol Foel Gron – Dylan Llwyd yn fodlon cymryd ei lle; RMJ yn fodlon parhau yn Ysgol Sarn Bach a chan nad oedd WBW yn bresennol, ni ellid cadarnhau o ran Ysgol Aber-soch.

d) **AHNE Llŷn – Cronfa Datblygu Cynaliadwy a Chynllun Rheoli**
E-byst yn hysbysu y deil y Gronfa ar agor ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ac yr adolygwyd y Cynllun Rheoli yn unol â gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 – angen sylwadau erbyn Tachwedd 10fed.

dd) **Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***
Llythyr yn cynnig cyfle i'r Cyngor gydweithio ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau ac mewn gweithgareddau cymunedol yn ei ardal. Mae'n gyfle pendant i gynghorau osod amod iaith wrth noddi gweithgareddau neu roddion ariannol. Amgaewyd pecyn sy'n cynnwys geirfa ac ymadroddion cyffredinol er mwyn rhoi cymorth i'r rhai sydd ddim yn hyderus yn defnyddio'r iaith. Gall swyddog ddod i sgwrsio am y prosiect mewn mwy o fanylder.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/0755/39/CC	Gwaith tocio pedair coeden sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed – Min y Don, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0774/39/LL	Adeiladu balconi llawr cyntaf – 26 Tan-y-Gaer, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0809/39/LL	Adeiladu modurdy – Tŷ Gwair, Creigir Uchaf, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/0879/39/LL	Estyniad cefn – Afallon, 18 Tan-y-Gaer, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Hydref (Rh/S 002101) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Nimbus Lightning Protection Ltd. – £148.80 (Rh/S 002100 – Prawf Diogelwch Corn Tanrallt)
b) J.A. Pozzi – £660.00 (Rh/S 002102 – Torri Llwybrau Mynytho)
c) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002103 – Talu Wrth Ennill)
ch) Siôn Hughes – £4600.00 (Rh/S 002014 – Torri'r Foel a Llain y Pentref)

[Ni dderbyniwyd y taliad blynyddol oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf – newidiwyd swyddogion ond, trosglwyddwyd y cais i'r un cywir erbyn hyn, yn dilyn holi amdano.]

Derbyniadau

a) Toiledau – £54.60 (Tâl Mynediad – £24.20, £12.80 a £17.60)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Tachwedd 8fed, 2017 am saith o'r gloch